

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd dros y rhwydwaith am 9.30 ar 20 Hydref 2015

Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)
Gareth Eyres
Jacqui Hare

Archwilwyr: Ian Clarke, PriceWaterhouseCoopers (Archwilwyr allanol)
Jonathan Rees, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)
Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Yr Athro Iwan Davies
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Gareth Pierce (aelod cyfetholedig)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod dros y rhwydwaith a chroesawyd Gareth Eyres a Jacqui Hare i'w cyfarfod cyntaf. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 19 Mai 2015, fel cofnod cywir.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Aelodaeth	<p>4.1 Yn dilyn penodi Gareth Eyres a Jacqui Hare yn aelodau o'r pwyllgor nodwyd bod y cylch gorchwyl yn caniatáu penodi un aelod allanol pellach.</p> <p>4.2 Adroddir ar y penodiad maes o law.</p>	Penodi aelod allanol pellach	Erbyn Gaeaf 2016
5. Cyllideb y Coleg 2015/16 (PA/15/03/05)	<p>5.1 Cyflwynwyd Cyllideb ddiwygiedig y Coleg ar gyfer 2015/16 gan y Cofrestrydd. Yn sgil derbyn cadarnhad gan y Cyngor Cyllido ynghylch cyllideb y Coleg ar gyfer 2015/16 a 2016/17 adroddwyd bod y gyllideb a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17 Mehefin 2015 wedi ei haddasu i gynnwys arbedion ar draws y cyfnod tan 2017.</p> <p>5.2 Wrth gyfuno cyllidebau 2015/16 a 2016/17 ceir cyllideb dros y ddwy flynedd o £13.8 miliwn a gytunwyd gan yr aelodau sy'n cynllunio synhwyrol yn sgil y risg.</p> <p>5.3 Sicrhawyd yr aelodau bod trafodaethau eang ynghylch y sefyllfa ariannol heriol a sut i reoli'r sefyllfa cyfathrebu'n fewnol ac yn allanol wedi digwydd gyda'r Cyfarwyddwyr ar 22 a 23 Medi gyda thrafodaethau pellach i ddigwydd ar 25 Tachwedd 2015.</p>		
6. Cyllideb ddrafft y Coleg 2016/17	<p>6.1 Cyflwynwyd cyd-destun Cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2016/17 gan y Cofrestrydd. Byddai'r arbedion yng nghyllideb 2015/16 yn gosod sail ar gyfer cyllideb ddrafft 2016/17 a gyflwynir i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Tachwedd 2015.</p>		
7. Cyfrifon Blynyddol 2014/15	<p>7.1 Cafwyd cyflwyniad ar Gyfrifon Blynyddol y Coleg ar gyfer 2014/15 gan Ian Clarke o'r Archwilwyr Allanol.</p> <p>7.2 Nodwyd bod angen dileu unrhyw fan wallau ac ychwanegu testun yn egluro'r cyd-destun presennol ym mharagraff olaf, tudalen 3.</p> <p>7.3 Derbyniwyd y Cyfrifon i'w cyflwyno i'r Bwrdd</p>	IC a DT i gyd-lynu'r diwygiadau	Hydref 2015

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cyfarwyddwyr ar 25 Tachwedd ar gyfer cymeradwyaeth.		
8. Adroddiad yr Archwilwyr Allanol 2014/15	<p>8.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2014/15 gan Ian Clarke.</p> <p>8.2 Cyfeiriwyd at ofynion cyfrifyddu newydd a ddaw yn weithredol yn 2015/16 a bydd yr Archwilwyr Allanol yn rhoi cyfarwyddyd i'r Coleg ar hyn.</p> <p>8.3 Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol am eu gwaith.</p>		
9. Rheoliadau Ariannol	<p>9.1 Nodwyd nad oedd y Rheoliadau Ariannol wedi newid ers eu diwygio'n helaeth a'u cylchredeg fis Rhagfyr 2014.</p> <p>9.2 Cytunwyd i ail-gylchredeg y Rheoliadau Ariannol, er gwybodaeth, ar ôl y cyfarfod hwn.</p>	NB i gylchredeg	Hydref 2015
10. Y Gofrestr Risg (PA/15/03/10)	<p>10.1 Cafwyd diweddariad ar y Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd.</p> <p>10.2 Yn sgil argymhellion gan yr archwilwyr mewnol eglurwyd bod y swyddogion wedi adolygu'r Gofrestr Risg ac wedi ychwanegu colofnau at y risgiau strategol a gweithredol yn nodi pam fod y risgiau wedi newid.</p> <p>10.3 Yn dilyn trafodaeth eglurwyd bod y swyddogion yn adolygu'r risgiau gweithredol yn dymhorol, ac y byddent yn talu sylw dyledus i'r Gofrestr Risg mewn cyfarfod ar 5 Tachwedd 2015.</p> <p>10.4 Cytunwyd y dylid cyflwyno'r Gofrestr Risg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Tachwedd gydag argymhellion i gynnwys risgiau ychwanegol yn sgil yr heriau sydd yn wynebu'r Coleg yn ystod y ddwy flynedd nesaf a thu hwnt i 2017.</p>	Addasiadau a sicrhau cyfieithiad i'r BC	Erbyn 25 Tachwedd 2015
11. Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol	11.1 Cafwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2014/15 gan Carol Warburton ac fe'i		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2014/15	<p>derbyniwyd gan y Pwyllgor.</p> <p>11.2 Eglurwyd bod yr adroddiad yn debyg i'r llynedd a bod canfyddiadau'r adroddiad yn cynnig 'sicrwydd cymedrol', canfyddiad a roddir i nifer sylweddol o gwmnïau. Eglurwyd y bu oedi gyda rhai agweddau o'r adolygu arferol oherwydd trafodaethau ar ddyfodol cyllidebol y Coleg wedi 2017 a'r gobaith yw cwblhau'r adolygiadau hyn yn 2015/16. Bydd yr archwilwyr mewnol yn cynnal hunanasesiad yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ystod 2015/16 a bydd gofyn i aelodau'r Pwyllgor fwydo i'r adroddiad.</p>		
12. Cyfathrebu: Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol	<p>12.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gyfathrebu gan Jonathan Rees.</p> <p>12.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro gweithgareddau ac ymateb y sefydliad o ran addasu strategaeth • Digonolrwydd y wybodaeth reoli gan gynnwys casglu data a chywirdeb • Defnydd o gyfryngau cymdeithasol a pholisïau i gyfeirio/rheoli hyn <p>12.3 Adroddwyd bod y swyddogion wedi ymateb yn llawn i ganfyddiadau'r archwilwyr mewnol a bod trafodaeth wedi bod, mewn perthynas â rhai o'r argymhellion, ynghylch y math o gamau sydd yn gymesur â'r adnoddau sydd ar gael oddi fewn i'r Coleg. Cymeradwywyd y ddogfen a oedd yn manylu ar y canfyddiadau ac ymatebion y swyddogion iddynt. Canfuwyd bod naw risg isel fel a ganlyn: Cyfarfodydd adran – argymell cadw rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod Polisi rheoli prosiectau – sicrhau bod gan y Coleg ddogfen ganolog sydd yn cael ei dilyn gan bob aelod o</p>	<p>EW i drefnu</p> <p>CR i greu canllawiau</p>	<p>Hydref 2015</p> <p>Tachwedd 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>staff sydd yn ymwneud â rheoli prosiect. Gwybodaeth yn cyrraedd y Bwrdd Cyfarwyddwyr – argymhell bod diweddariad cyson yn cael ei ddarparu. Nodwyd bod y Bwrdd wedi derbyn cyflwyniad gan y Rheolwr Cyfathrebu yn y gorffennol. Diffyg eglurder am atebion safonol i gwestiynau cyffredinol – argymhell gosod ymatebion cyffredinol ar wefan y Coleg Cyflogaeth ar ôl graddio – sicrhau bod trefn ffurfiol yn cael ei sefydlu ar gyfer cadw gwybodaeth mewn dull systematig Cynllun peilot y llysgenhadon – datblygu strwythur monitro Polisi cyfathrebu mewnol ac allanol gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfryngau cymdeithasol – drafftio polisi Monitro sylwadau negyddol a chadarnhaol ynghylch y Coleg yn y wasg Adborth i'r wefan newydd – casglu data ar y defnydd o'r wefan</p> <p>12.4 Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd yr Archwilwyr Mewnol yn ffurfiol am eu gwaith.</p>	<p>IM i barhau i gynnwys cyfathrebu yn ei adroddiad i'r Bwrdd</p> <p>EW i drefnu</p> <p>CR i drefnu gyda staff priodol y Coleg</p> <p>Eisoes ar waith</p> <p>OH a EW</p> <p>Eisoes ar waith</p> <p>OH</p>	<p>Tachwedd 2015 ymlaen</p> <p>Tachwedd 2015</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Tachwedd 2015</p>
<p>13. Adroddiad Cynnydd a Chynllunio'r Archwilwyr Mewnol</p>	<p>13.1 Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar raglen waith 2015/16 yr Archwilwyr Mewnol gan Carol Warburton.</p> <p>13.2 Argymhellwyd y dylai'r archwilwyr drafod y rhaglen waith gyda'r swyddogion yn sgil sefyllfa gyllidol gyfredol y Coleg.</p> <p>3.3 Argymhellwyd i'r Archwilwyr Mewnol eu bod yn cynnwys tabl cymhareb yn yr adroddiad lefel uchel nesaf er mwyn atgoffa'r Pwyllgor o'r argymhellion a'r cyraeddiadau.</p>	<p>Archwilwyr Mewnol a'r swyddogion i gytuno ar gynllun gwaith diwygiedig</p>	<p>Hydref 2015</p>
<p>14. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 4 2014/15</p>	<p>14.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 4 2014/15 gan y Cofrestrydd.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(PA/15/03/13)	14.2 Derbyniwyd y cyfrifon.		
15. Materion yn Codi	15.1 <u>Eitem 9.4: Pensiwn USS</u> . Cafwyd diweddariad ar sefyllfa pensiwn USS gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y newidiadau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016 ac y byddai angen cymorth yr Archwilwyr Allanol i weithio ar yr effeithiau i'r Coleg.		
16. UFA	16.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.		
17. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	17.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf dros y rhwydwaith fideo <ul style="list-style-type: none"> • 9 Chwefror 2016, 9.30-12.30 • 17 Mai 2016, 2.00-5.00 17.2 Diolchwyd i'r cyfieithydd ar y pryd am ei waith.		